Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.05.2021

## Cronfa Cadernid Economaidd (ERF) ar agor i fusnesau sydd â throsiant o £85k+

Gall busnesau sydd â throsiant cyn COVID o £85,000+, sydd wedi/a fydd yn cael eu effeithio gan y cyfyngiadau sy'n dal i fod ar waith yn ystod mai a Mehefin 2021, wneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd am gymorth ariannol i helpu i dalu eu costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff). Mae cymorth ar gael i fusnesau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cyfyngiadau a'u cadwyni cyflenwi.

I wirio eich cymhwysedd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

Bydd ceisiadau am gymorth gan fusnesau sydd â throsiant o dan £85,000 yn agor yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 1 Mehefin 2021 (mwy o wybodaeth i ddilyn).

# Diweddariad i'r Canllawiau ar gyfer Hosteli

Mae diweddariad i'r canllawiau ar gyfer Hosteli ar gael yng Nghanllawiau UKHospitality Cymru (tudalen 30 ymlaen), ewch i:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

Mae gwybodaeth ar gael, hefyd, yn y ddogfen – Diogelu Cymru: canllawiau i dwristiaeth a lletygarwch – ewch i:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-busnesau-twristiaeth-a-lletygarwch-coronafeirws

Gan fod pob hostel yn wahanol, dylai perchenogion a rheolwyr ddarllen pob canllaw i ddeall y mesurau sydd angen eu hystyried i allu agor yn ddiogel. Gellir cael gwybodaeth gyffredinol am reoliadau Lefel Rhybudd 2 yma:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2

# Gwasanaethau Tân Cymru yn galw ar berchnogion cartrefi gwyliau i weithredu

Mae Gwasanaethau Tân ar draws Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliad Croeso Cymru a pherchnogion cartrefi gwyliau i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â chanllawiau newydd a chyfredol i barhau i gadw eu hunain a'u cwsmeriaid yn ddiogel yr haf hwn. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnig cyngor a chymorth unigryw a phenodol mewn perthynas â chymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod eu heiddo yn cydymffurfio â thân. Mae'r canllawiau'n cynnwys rhestrau gwirio defnyddiol, cyngor asesu risg tân sydd wedi ei symleiddio ac awgrymiadau am sut i leihau'r risg o dân. Ewch i:

https://bit.ly/2SouNLW

# Gweminarau Cynllun Trefi SMART

Nod prosiect Trefi SMART Llywodraeth Cymru yw helpu busnesau canol trefi i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n casglu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr. Mae systemau Tref SMART eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi Gwynedd gyda mwy ar y ffordd.

Cynhelir gweminarau yr wythnos hon i rannu gwybodaeth am sut i wneud y gorau o'r data sydd ar gael – 'Tec am eich Stryd Fawr Clyfar' a 'Newid Tec i Wybodaeth'. I gofrestru am y gweminarau, ewch i:

https://trefi-smart-towns-cymru.eventbrite.co.uk

- Gall Tîm Trefi SMART gefnogi eich tref a threfnu gweithdai pwrpasol ar eich cyfer. I gofrestru, ewch i: https://forms.office.com/r/dW7qtfL3CU

## Cwrs cychwyn busnes am ddim: Miwtini Creadigol a Digidol 2 Mehefin 2021

Mae Miwtini yn rhaglen gyffrous 8 wythnos gan Hwb Menter i helpu'r rhai sy'n awyddus i ddechrau busnes. Bydd y gyfres nesaf yn canolbwyntio ar fusnesau Creadigol a Digidol, a bydd y sesiynau ar-lein dwy awr yn cael eu cynnal bob dydd Mercher, gan ddechrau 2 Mehefin 2021 tan 21 Gorffennaf 2021.

Am fwy o wybodaeth, ewch i:
https://www.hwbmenter.cymru/cy/miwtini

I ymgeisio, ewch i:
https://form.jotform.com/Openshaw/Miwtini

## Digwyddiad ION Leadership "Personoliaeth mewn Gwaith; Gwneud y gorau o bwy ydych chi!" – 27 Mai 2021

Mae ION Leadership yn cynnal digwyddiad rhithwir am ddim – "Personoliaeth mewn Gwaith; Gwneud y gorau o bwy ydych chi!" – ar 27 Mai 2021 am 11:00am. Ymunwch ag ION Leadership i gael dealltwriaeth ddyfnach o Mathau Personoliaeth.

Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal trwy Zoom.

E-bostiwch: ionleadership@bangor.ac.uk i archebu'ch lle

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru